



ATISN 17160

14 Mawrth 2023

Annwyl

### ATISN 17160 – Datblygiadau Un Blaned yng Nghymru

Diolch i chi am eich cais a ddaeth i law ar 15 Chwefror 2023. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: Yn dilyn mabwysiadu polisi cynllunio Un Blaned gan Lywodraeth Cymru yn 2011, hoffwn y wybodaeth ganlynol ar lwyddiant/ffaeleddau'r polisi rhwng 2011 a 2023 os gwelwch yn dda:

1. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan;
2. Y nifer o ymgeiswyr OPD aflwyddiannus trwy Gymru gyfan.
3. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl blwyddyn;
4. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan na ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl blwyddyn;
5. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl blwyddyn oedd yn cwrdd a gofynion eich polisi;
6. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl blwyddyn oedd ddim yn cwrdd a gofynion eich polisi;
7. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl pum mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth;
8. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan na ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl pum mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth;
9. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl pum mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth oedd yn cwrdd a gofynion eich polisi;

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

10. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl pum mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth oedd ddim yn cwrdd a gofynion eich polisi;
11. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl deng mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth llwyddiant diamheuol;
12. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan na ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl deng mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth llwyddiant diamheuol;
13. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl deng mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth llwyddiant diamheuol, oedd yn cwrdd a gofynion eich polisi;
14. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru gyfan a ddychwelodd ffurflen monitro (agenrheidiol) ar ôl deng mlynedd, sef y cyfnod gofynnol am dystiolaeth llwyddiant diamheuol, oedd ddim yn cwrdd a gofynion eich polisi;
15. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru sydd dan orfodaeth am beidio cydymffurfio a'ch polisi;
16. Y nifer o ymgeiswyr OPD llwyddiannus trwy Gymru sydd wedi mynd trwy proses Polisi Gadael oherwydd diffyg cydymffurfio a'r polisi.

## Ein hymateb

Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani wedi'i hamgáu.

1. Nifer y ceisiadau ar gyfer Datblygiadau Un Blaned wedi'u cymeradwyo erbyn mis Mawrth 2019 oedd 17.
2. Nifer y ceisiadau ar gyfer Datblygiadau Un Blaned wedi'u gwrthod erbyn mis Mawrth 2019 oedd 7.
3. Nid oes gennym wybodaeth
4. Nid oes gennym wybodaeth
5. Nid oes gennym wybodaeth
6. Nid oes gennym wybodaeth
7. Nid oes gennym wybodaeth
8. Nid oes gennym wybodaeth
9. Nid oes gennym wybodaeth
10. Nid oes gennym wybodaeth
11. Nid oes gennym wybodaeth
12. Nid oes gennym wybodaeth
13. Nid oes gennym wybodaeth
14. Nid oes gennym wybodaeth
15. Nid oes gennym wybodaeth
16. Nid oes gennym wybodaeth

## Nodyn gwybodaeth ynghylch cwestiynau 1–16

Mewn perthynas â chwestiynau 1 a 2, mae'r data'n seiliedig ar gyflwyniadau gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2019. Oherwydd goblygiadau ar gyfer adrannau cynllunio awdurdodau lleol mewn perthynas ag adnoddau wrth ymateb i bandemig COVID-19, nid oes unrhyw ddata ynglŷn â Datblygiadau Un Blaned wedi cael ei gasglu ers y cyfnod Ebrill 2018 i Fawrth 2019. Disgwylir i broses fonitro Llywodraeth Cymru ailddechrau eleni. Nodwch nad yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo yn cadarnhau bod y datblygiad wedi cael ei gynnal, nac yn nodi a oedd y cais yn cynnwys mwy nag un eiddo.

Mae'r Cyngor Un Blaned hefyd yn casglu data ar Ddatblygiadau Un Blaned sydd wedi cael eu cymeradwyo – efallai y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi. Mae'r data hwn ar gael ar eu gwefan.

Mewn perthynas â chwestiynau 3–16, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar fonitro Datblygiadau Un Blaned unwaith mae penderfyniadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno – yn naill ai gymeradwyo neu wrthod datblygiad. Pob awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am y gwaith o fonitro Datblygiadau Un Blaned yn barhaus. I gael y data rydych wedi gofyn amdano yng nghwestiynau 3–16, bydd angen ichi ofyn i'r awdurdodau cynllunio lleol unigol.

Disgwylir i Ddatblygiadau Un Blaned fod wedi cyflawni ôl troed byd-eang o 2.4 hectar, ac i fod wedi cyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn eu cynllun rheoli erbyn blwyddyn 5. Dim ond i nodi pa mor aml mae'r ôl troed byd-eang yn cael ei fonitro y cyfeirir at '10 mlynedd' yn yr Arweiniad Ymarferol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned; mae hyn yn dilyn trefn dwy flynedd/tair blynedd (h.y. blynyddoedd 3, 5, 8, 10, 13, 15 ac ati). Nid yw TAN 6 na'r Arweiniad Ymarferol yn cyfeirio at '10 mlynedd' fel 'y cyfnod sydd ei angen i ddangos llwyddiant diamheuol'. Mae angen cyflwyno adroddiad monitro'n seiliedig ar ofynion Pennod 3 o'r Arweiniad Ymarferol bob blwyddyn, ac mae angen ailgyflwyno'r cynllun rheoli cyfan bob pum blynedd.

Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am fonitro ac ystyried y ffordd mae prosiect Un Blaned wedi perfformio mewn perthynas ag amcanion ei gynllun rheoli a'r targedau o ran ei ôl troed ecolegol, ac os yw'n tanberfformio, bydd yn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau, a beth yw'r camau hynny.

## **Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: [rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygiad mewnol ni.

Yn gywir